Un Llais Cymru

Gwasanaethau Ymgynghoriaeth

Mae Un Llais Cymru yn gallu cynnig nifer o wasanaethau ymgynghoriaeth gwahanol i aelod gynghorau a ddarperir gan bobl broffesiynol cymwysedig. Mae'r gwasanaethau ar gael trwy gyfrwng y Saesneg a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Adnoddau Dynol a Chyfraith Cyflogaeth

- Adolygu polisïau Adnoddau Dynol a chynllunio polisïau cyflogaeth pwrpasol i gynghorau
- Cyngor penodol a chefnogaeth ar bob mater Adnoddau Dynol, gan gynnwys materion disgyblaeth, achwyniadau, diswyddiadau ac absenoldeb salwch
- Gweithredu'n gynghorydd proffesiynol i Baneli Apeliadau cynghorau
- Darparu gwasanaeth ymchwilio allanol i achosion disgyblaeth difrifol
- Paratoi cytundebau setlo mewn achosion priodol
- Darparu gwasanaethau cyflafareddu i gynghorau sydd mewn gwrthdaro gyda gweithiwr
- Cymorth gyda dewis a phenodi staff, gan gynnwys paratoi disgrifiadau swyddi, manylebau gweithwyr a pharatoi profion asesu
- Cymorth gyda pharatoi ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth
- Ymchwilio cwynion
- Paratoi a chyflwyno cyrsiau hyfforddiant pwrpasol

Ymgynghorwyr – Paul Egan a Brian Kultschar

Paul Egan

Yn dilyn gyrfa llywodraeth leol lwyddiannus, cychwynnodd Paul yrfa gyda'r Gwasanaeth Prawf yn 1981 a gweithiodd mewn sawl rôl, gan gynnwys Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Cymorth) a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Busnes. Yn ystod y cyfnod hyd at ei ymddeoliad cynnar ym mis Mawrth 2008, roedd yn Brif Swyddog Prawf Gweithredol ar gyfer Ardal Prawf De Cymru yn y flwyddyn yn diweddu ym mis Mawrth 2003. Yn ystod y cyfnod gweithredol hwn, gwasanaethodd Paul yn aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a Fforwm Prif Swyddogion a Chadeiryddion Byrddau Cymru.

Mae Paul wedi graddio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, mae'n aelod siartredig o'r Sefydliad Personél a Datblygu ac yn Gymrawd y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae ganddo brofiad helaeth ar draws holl agweddau rheoli adnoddau dynol a chynllunio strategol a gafodd trwy fod yn aelod o Fwrdd Strategol Adnoddau Dynol Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Grŵp Datblygu Busnes Cenedlaethol, gan wasanaethu'n Is-Gadeirydd Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder (Grŵp Rhanbarthol Cymru); a thrwy gymryd rhan

mewn nifer o grwpiau cyfiawnder troseddol rhanbarthol a chenedlaethol gwahanol ym meysydd personél a hyfforddiant a datblygu.

Er 2008, mae Paul wedi gweithio'n ymgynghorydd llawrydd ym maes Adnoddau Dynol a gweithiodd yn Glerc y Bwrdd Corfforaeth yng Ngholeg Glan Hafren ac fe'i cyflogir ar hyn o bryd yn Ddirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Adnoddau Un Llais Cymru.

Mae ei wybodaeth yn cynnwys llywodraethiant corfforaethol, y defnydd o fodelau rhagoriaeth busnes, rheolaeth ariannol a chynllunio a rheolaeth sefydliadol. Bu'n weithgar ym maes gweinyddiaeth cynghorau lleol am flynyddoedd lawer, ac ar hyn o bryd mae'n Glerc i Gyngor Cymuned Llandochau, yn Ymddiriedolydd Canolfan Adferiad Alcohol Brynawel ac yn Ymddiriedolydd Ymddiriedolaeth Neuadd Goffa a Theatr Y Barri.

Brian Kultschar

Mae gan Brian radd mewn economeg, mae'n gymrawd y Sefydliad Personél a Datblygu Siartredig, mae ganddo ddiploma yn namcaniaeth ac arfer cynghori ac mae'n aelod o'r Gymdeithas Brydeinig ar gyfer cynghori a seicotherapi. Gweithiodd yn y swyddi canlynol yn ystod ei yrfa nodedig:-

Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Rheolwr Adnoddau Dynol Interim Gwasanaethau a Busnes ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Rheolwr Adnoddau Dynol ar gyfer Grŵp MSS

Casglodd Brian gryn brofiad Adnoddau Dynol cyffredinol trwy gyflawni nifer o rolau gweithredol a strategol heriol yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Gweithiodd hefyd ar aseiniadau hirdymor ac interim, ac mae'n ymfalchïo yn ei allu i ymgysylltu, addasu a chreu ôl troed parhaol ar y sefydliadau y gweithiodd iddynt. Gwnaeth hynny trwy ymgysylltu â phobl a mynd ati'n fwriadol i'w datblygu. Mae hefyd wedi rheoli llwythi gwaith cysylltiadau gweithwyr heriol. Mae'n berson ymarferol, masnachol, pragmatig â'i draed ar y ddaear ac mae'n gyfathrebwr rhagorol ac mae ganddo agwedd empathetig ac ymgynghorol at bobl a sefyllfaoedd.

Gwasanaethau Cyfrifeg

- Paratoi cyfrifon ar gyfer cynghorau pan mae angen cymorth allanol

Ymgynghorydd – Nicola Eyre

Un Llais Cymru

Gwasanaethau Ymgynghoriaeth

Mae Nicola yn Gyfrifydd Siartredig tra phroffesiynol ac yn aelod o'r Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n Glerc i Gyngor Cymuned Cwm Garw yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr a bu yn ei swydd am ychydig dros ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn magodd gryn brofiad o weinyddiaeth a gweithdrefnau cynghorau lleol ac mae newydd ennill ei chymhwyster CiLCA a drefnir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Cyn gweithio i'r Cyngor Cymuned, gweithiodd i KPMG am 8 mlynedd, un o'r pedwar cwmni cyfrifeg mwyaf yng ngwledydd Prydain. Gwnaeth ei harholiadau Cyfrifydd Siartredig pan ymunodd â KPMG ac fe basiodd yr holl arholiadau y tro cyntaf. Gweithiodd yn yr adrannau Archwilio a Threth Gorfforaeth yn ystod y cyfnod hwn, a chafodd brofiad helaeth o faterion archwilio a threth. Gweithiodd ar lawer o gleientiaid mawr, gan gynnwys Banc Julian Hodge, Admiral, Panasonic, y Swyddfa Batent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yn gyfrifol hefyd am hyfforddi a mentora aelodau mwy iau o'r staff.

Yn ystod ei chyfnod yn KPMG cafodd flas arbennig ar gyfarfod a gweithio gyda chleientiaid hen a newydd. Roedd hyn yn golygu gweithio gyda phob lefel o staff mewn sefydliad.

Deddfwriaeth Treth Ar Werth

Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau cymhleth iawn o safbwynt TAW.

Ar gyfer awdurdodau mwy mae'r materion arferol yn amrywio o ddatblygu ac atgyfnerthu eiddo, cydweithio a phartneriaethau, toramodau eithrio rhannol, materion cynlluniau nwyddau cyfalaf, gollwng eithriadau ar eiddo a chyflawni gwasanaethau hamdden a diwylliannol.

Ar gyfer awdurdodau llai mae'r materion arferol yn amrywio o brosiectau cymunedol a chyfalaf, delio â phryniannau yn defnyddio arian wedi'i gyfrannu neu arian o gronfeydd ymddiriedolaeth a/neu ystyriaethau ariannol neu anariannol sy'n cael eu trin yn gyflenwadau busnes tybiedig.

Mae'r rhain yn rhan o nifer o faterion tebygol lle y gallai gwneud camgymeriad olygu fod ceisiadau TAW yn cael eu goramcangyfrif a chamgymeriadau sy'n cael eu cymhlethu gan gosbau.

Er gwaethaf trafodaeth helaeth gyda HMRC mae'r defnydd o gosbau yn y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn bell o fod yn ysgafn.

Ymgynghorydd – William Mann

Un Llais Cymru 24c, Stryd y Coleg, Rhydaman, SA18 3AF
paul.egan@unllaiscymru.org.uk

Un Llais Cymru

Gwasanaethau Ymgynghoriaeth

Cafodd William yrfa hirfaith yn HMRC yn arbenigo ar ddeddfwriaeth a pholisi TAW Awdurdodau Lleol ac fel ymgynghorydd llawrydd mae'n cynnig dull cynhwysol o helpu osgoi camgymeriadau a pheryglon cosbau.

Am rai blynyddoedd roedd William hefyd yn gynghorydd cymuned ac mae'n deall y materion a'r problemau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu pan mae cyllidebau'n cael eu paratoi'n anghywir, yn arwain at gostau na ragwelwyd mohonynt.

Nid yw HMRC mwyach yn cynnal y gwiriadau archwilio rheolaidd oedd ar un adeg yn cynnig peth tawelwch meddwl fod y rheoliadau TAW yn cael eu gweithredu'n gywir, ac o'r herwydd nid yw awdurdodau yn aml yn ymwybodol fod camgymeriadau'n cael eu gwneud.

Gall cael y TAW yn anghywir olygu fod costau'n codi hyd at 20% a gall arwain at gosb ychwanegol ar y gwerth TAW os nad yw'r camgymeriad yn cael ei ddatgan! Mae'r rhain yn faterion all beryglu prosiectau presennol ac i'r dyfodol os nad yw'r goblygiadau TAW yn cael eu deall yn iawn.

Mae William yn credu mewn dynesiad rhagweithiol fydd yn adnabod meysydd TAW problematig cyn iddynt ddigwydd ac yn delio â chamgymeriadau'r gorffennol mewn ffordd all yn aml osgoi gosod cosbau.

Iechyd, Diogelwch a Lles

- Adolygu'r corff presennol o bolisïau a pharatoi polisïau a gweithdrefnau pwrpasol
- Cynnal asesiadau risg a darparu gweithdrefnau i gefnogi'r canfyddiadau
- Pob agwedd o gyngor ar iechyd, diogelwch a lles
- Darparu hyfforddiant pwrpasol

Ymgynghorydd – Christopher Johns

Bu Chris yn weithiwr iechyd & diogelwch proffesiynol am fwy nac 20 mlynedd a gweithiodd ar wneud polisïau, gweithdrefnau, arferion gweithio diogel a hyfforddiant ac ati ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'n Gymrawd Siartredig IOSH, yn aelod o Gyngor IOSH ac mae'n Arholwr NEBOSH. Bu'n Ysgrifennydd Grŵp Diogelwch Caerdydd & De Ddwyrain Cymru am bron i 20 mlynedd ac yn Ysgrifennydd Cangen De Cymru IOSH am yr 8 mlynedd diwethaf. Mae'n credu'n gryf fod ei brofiad, ynghyd â'i agwedd bragmataidd at iechyd, diogelwch & lles yn cynnig persbectif defnyddiol / buddiol ar faterion iechyd a diogelwch fydd yn galluogi cynghorau lleol i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol iechyd a diogelwch.

Rheoli Eiddo (Gwasanaeth i gynghorau'r Gogledd yn unig)

Un Llais Cymru 24c, Stryd y Coleg, Rhydaman, SA18 3AF
paul.egan@unllaiscymru.org.uk

- Cynnal a Chadw Eiddo a Rheoli Cyfleusterau
- Rheoli a Gwerthuso Prosiectau
- Gwerth am arian, arbed costau a chaffael
- Cynllunio Parhad Busnes
- Strategaeth, Polisi ac Asesiadau Amgylcheddol

Ymgynghorydd – Dr Ian Gardner PhD, MSc, BA (Anrh), FCIH, FCMI, FRSA

Cafodd Ian yrfa nodedig yn Rheolwr Tai i awdurdod lleol, Pennaeth Tai, Rheolwr Cyffredinol cwmni, Rheolwr Cymdogaeth, Ymgynghorydd Cynnal a Chadw Cymdeithas Dai a Chyfarwyddwr Rheoli Asedau ac mae ar hyn o bryd yn Rheolwr Gyfarwyddwr Cwmni Ymgynghori. Mae ganddo brofiad helaeth yn y sectorau cyhoeddus, preifat ac nid er mwyn elw ac mae ganddo hanes llwyddiannus o gyflawni gwaith rheoli newid, gwella perfformiad a lleihau costau mewn amgylcheddau heriol. Mae hefyd yn gynghorydd cymuned.

Ymgysylltu a Datblygu Cymunedol

- Cynllunio a chyflawni hyfforddiant ymgysylltu a datblygu cymunedol
- Datblygu cynlluniau ymglymiad cymunedol
- Gwasanaethau mentora a chefnogaeth

Ymgynghorydd – Liz Court

Hyfforddodd Liz yn wreiddiol yn athrawes a gweithiodd mewn ysgolion uwchradd a chanol mewn sawl rhan o wledydd Prydain. Ar ddiwedd yr wythdegau, symudodd Liz i'r trydydd sector gan weithio mewn nifer o swyddi datblygu cymunedol gwahanol ledled Cymru. Mae gyrfa Liz wedi cynnwys gwaith llawr gwlad a datblygu ynghyd â rolau uwch reoli yn gweithio i Gorfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd a'r Sefydliad Datblygu Cymunedol (UK). Yn fwy diweddar gweithiodd Liz i Community Development Cymru, yn gyfrifol am ddatblygu polisi a'r gweithlu. Mae Liz hefyd yn arwain ar hyrwyddo'r CDNOS (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar Ddatblygu Cymunedol), fframwaith y DG ar gyfer gwella gwaith datblygu cymunedol. Mae Liz yn hwylusydd a hyfforddydd profiadol, ac mae'n darparu hyfforddiant ymgysylltu cymunedol ar gyfer Un Llais Cymru.

Ymgysylltu Cymunedol, Trosglwyddo Asedau, Gwaith Partneriaeth a Threfniadau Ariannu a Monitro a Gwerthuso Prosiectau

Ymgynghorydd – Cerys Thomas

Un Llais Cymru

Gwasanaethau Ymgynghoriaeth

Mae gan Cerys Thomas dros ddeng mlynedd ar hugain o brofiad yn y sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru, gan gynnwys tair blynedd yn arwain mudiad Datblygu Cymunedol mwyaf Cymru, Community Development Cymru, lle yr arweiniodd ar ddatblygu'r Fframwaith Strategol Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cymru. Treuliodd bum mlynedd hefyd yn Rheolydd Gweithrediadau, Cymru ar gyfer y Gronfa Loteri Gymunedol, sef y Gronfa Loteri Fawr erbyn hyn, a gweithiodd yn swyddog datblygu ar gyfer Un Llais Cymru, cyn gadael i ymuno â Resources for Change (R4C), ymgynghoriaeth sy'n eiddo i'r gweithwyr yn 2013.

Mae gan Cerys, sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, brofiad helaeth o ddatblygu cynlluniau cymunedol ac yn ddiweddar (2015) gweithiodd gyda phedair cymuned ym Mhowys i ddatblygu eu cynllun. Mae ganddi hefyd brofiad ym maes trosglwyddo asedau, gan iddi weithio'n uniongyrchol ar drosglwyddo adeiladau cymunedol ac yn ddiweddar bu'n cefnogi cyngor oedd yn gobeithio cyflawni'r trosglwyddiad tir mwyaf yng Nghymru, a chynhaliwyd digwyddiad i ddod â budd-ddeiliaid at ei gilydd i ddatblygu strwythurau addas. Mae'n hwylusydd profiadol, ac mae'n gweithio'n rheolaidd ar werthuso prosiectau a dderbyniodd gyllid allanol.

Mae'r tîm yn Resources for Change hefyd yn cynnwys pobl a chanddynt arbenigedd ym meysydd ynni adnewyddadwy, datblygu cynaliadwy a datblygu a rheoli asedau cymunedol yn fentrau cymdeithasol. Er mwyn cael mwy o wybodaeth, ewch i wwwr4c.org.uk

Datblygu Datganiad ar Gynlluniau Lle a Lles

- Llunio proffiliau data lleol
- Ymarferion Ymgysylltu Cymunedol
- Paratoi Cynlluniau Lle yn cyflwyno safbwyntiau lleol ar ddatblygiadau arfaethedig ac anghenion economaidd, cymdeithasol a gwasanaethau amgylcheddol
- Ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau prif ffrwd
- Cael gafael ar gyllid i gyflawni gweithredoedd lleol
- Paratoi datganiadau Llesiant ac adroddiadau cynnydd blynyddol

Ymgynghorydd - Chris Ashman MSC MIED

Chris yw Perchennog/Cyfarwyddwr Sustainable Regeneration Solutions ac mae'n un o'r prif ymarferwyr Cynlluniau Lle yng Nghymru. Mae ganddo fwy na 25 mlynedd o brofiad o weithio gyda chymunedau ledled Cymru i helpu adnabod blaenoriaethau lleol, datblygu ymatebion ymarferol, cyllidadwy i faterion allweddol a galluogi mwy o waith partneriaeth rhwng cynghorau tref a chymuned, cymunedau lleol, mudiadau trydydd sector a holl haenau llywodraeth. Mae'n arbennig o fedrus mewn gwaith ymgysylltu cymunedol, brocera partneriaethau asiantaeth, dadansoddi data, sicrhau cyllid a chynnal gwerthusiad o effaith buddsoddiadau, ac arweiniodd Chris ar gyflawni Cynllun Lle Cyngor Gwledig Llanelli, sef y cynllun lle cyntaf yng Nghymru sy'n cydymffurfio ag amodau Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol. Mae Chris hefyd yn cynnig cymorth i gynhyrchu datganiadau Llesiant yn cysylltu cynlluniau a gweithgareddau cynghorau gydag amcanion Byrddau Gwasanaethau Lleol a nodau Llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn cael mwy o fanylion, gan gynnwys costau, cysylltwch â Mr Paul Egan, Dirprwy Brif Weithredwr a Rheolwr Adnoddau. Danfonwch e-bost i paul.egan@unllaiscymru.org.uk.